OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 Rhif 605 (Cy. 116) (C. 48)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 3) 2018

Gwnaed - - - - 17 Mai 2018

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 126(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 3) 2018.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Mai 2018

2. Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 31 Mai 2018—

(a) Rhan 8 (darparu toiledau); a

(b) Atodlen 4 (darparu toiledau: diwygiadau canlyniadol).

Vaughan Gething
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

17 Mai 2018

(**1**) 2017 dccc 2.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ddarpariaethau penodedig o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol o'r Ddeddf sy'n ymwneud â darparu toiledau ar 31 Mai 2018.

NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 2	4 Hydref 2017	2017/949 (Cy. 237) (C. 85)
Adran 3	4 Hydref 2017	2017/949 (Cy. 237) (C. 85)
Adran 94	1 Chwefror 2018	2018/1 (Cy. 1)
Rhan 5	1 Chwefror 2018	2018/1 (Cy. 1)
Adran 119	4 Hydref 2017	2017/949 (Cy. 237) (C. 85)

Gweler hefyd adran 126(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 3 Gorffennaf 2017 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).